# Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD MERCHER, 23 TACHWEDD, 2016**

**AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR YN **Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **10.00 AM** AR **DDYDD IAU, 1AF RHAGFYR, 2016** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Catherine Gadd** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224088** |
| **E-bost:** | **cegadd@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**
**15 AELOD**

**Y GRŴP PLAID CYMRU - 7 AELOD**

1. Y Cynghorydd A. Davies
2. Y Cynghorydd J.M. Charles
3. Y Cynghorydd J.K. Howell
4. Y Cynghorydd D.J.R. Llewellyn
5. Y Cynghorydd J. Thomas
6. Y Cynghorydd D.E. Williams [Is-Gadeirydd]
7. Y Cynghorydd J.S. Williams

**Y GRŴP ANNIBYNNOL - 4 AELOD**

1. Y Cynghorydd T. Bowen
2. Y Cynghorydd D.B. Davies
3. Y Cynghorydd I.J. Jackson [Cadeirydd]
4. Y Cynghorydd H.I. Jones

**Y GRŴP LLAFUR - 4 AELOD**

1. Y Cynghorydd T. Davies
2. Y Cynghorydd P.M. Edwards
3. Y Cynghorydd P.E.M. Jones
4. Y Cynghorydd M.K. Thomas

***DYLAI AELODAU FOD YN YMWYBODOL NA CHANIATEIR IDDYNT OFYN I AELODAU O FEWN EU GRWPIAU EU HUNAIN I'W CYNRYCHIOLI MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA***

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB | |
| 2. | DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL. | |
| 3. | MR DAVID KEITH MAYNARD - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT | 5 - 8 |
| 4. | MR ANDREW PAUL MORGANS - DRWYDDED CERBYD HURIO HACNAI | 9 - 12 |
| 5. | MR PETER WILLIAM DUNKLEY - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT | 13 - 16 |
| 6. | MR DUDLEY PETER EVANS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT | 17 - 20 |
| 7. | MR MATTHEW HODGON - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT | 21 - 24 |
| 8. | LOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR YR 11EG HYDREF, 2016 | 25 - 28 |
| 9. | LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFORD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR Y 19EG HYDREF, 2016 | 29 - 34 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 01/12/16

**PWNC A PHWRPAS**
**Mr David Keith Maynard**
**Trwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Bod y Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a oedd wedi'i rhoi i Mr Squire yn cael ei hatal am 7 diwrnod.**

## RHESYMAU:

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd T.J. Jones

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Robin Staines | Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd | 01267 228706 rstaines@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Licensing Committee
## 01/12/16

**SUBJECT**

**Mr David Keith Maynard**

**Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence**

**Mr David Keith Maynard of 2 Pontgoch, Bancyfelin, Carmarthen is a licensed hackney carriage/private hire dual driver with this authority.**

**This item was deferred by the Licensing Committee on the 19th October 2016.**

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Robin Staines** **Head of Housing and Public Protection**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **YES** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**LEGAL: The legal implication of Suspending Mr Maynard's licence is that he may lodge an appeal**

## CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Robin Staines** **Head of Housing and Public Protection**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD10138 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |
| | | |
| | | |

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# EITEM RHIF AR YR AGENDA

## PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 01/12/16

**PWNC A PHWRPAS**
**DRWYDDED CERBYD HURIO HACNAI**

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Bod y cais yn cael ei ganiatáu.**

**RHESYMAU:**

**Canllawiau'r Cyngor yn ymwneud â'r broses gwneud cais.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd T.J. Jones**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Robin Staines | Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd | 01267 228706 rstaines@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# Licensing Committee
# 01/12/16

**SUBJECT**

## HACKNEY CARRIAGE VEHICLE LICENCE

**To consider an application from Mr Andrew Paul Morgans of AJ's Taxis, 38 Park View, Llanelli to be granted an exemption from Condition 15(e) of the Council's Conditions of Licence for Hackney Carriage Vehicles. This condition states that the engine capacity of the vehicle shall not be less than 1200cc.**

**Mr Morgans has requested that he be granted this exemption from Condition 15(e) of the Council's Conditions of Licence for a Nissan Leaf Electric Car. This vehicle features an advanced 24kWh or 30kWh rechargeable lithium-ion battery pack designed to provide clean, reliable power and therefore does not meet the current Engine Capacity Licence Condition.**

**This vehicle is fully compliant with all other Conditions of Licence for Hackney Carriage Vehicles.**

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Robin Staines** **Head of Housing and Public Protection**



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Robin Staines** **Head of Housing and Public Protection**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | HC 747 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |
| | | |
| | | |

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
**01/12/16**

**PWNC A PHWRPAS**
**Mr Peter William Dunkley**
**Trwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Bod Mr Dunkley yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## RHESYMAU:

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd T.J. Jones**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Robin Staines | Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd | 01267 228706 rstaines@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Licensing Committee
## 01/12/16

**SUBJECT**

**Mr Peter William Dunkley**

**Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence**

**Mr Peter William Dunkley of 70 Firth Road, Llanelli is a licensed hackney carriage/private hire dual driver with this authority.**

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Robin Staines** **Head of Housing and Public Protection**



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Robin Staines** **Head of Housing and Public Protection**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD30316 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |
| | | |
| | | |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 01/12/16

**PWNC A PHWRPAS**
**Mr Dudley Peter Evans**
**Cais am Drwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Caniatáu cais Mr Evans gyda rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## RHESYMAU:

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd T.J. Jones**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Robin Staines | Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd | 01267 228706 rstaines@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# Licensing Committee
# 01/12/16

| SUBJECT |
|---|
| **Mr Dudley Peter Evans** |
| **Application for the Grant of a Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence** |

**To consider an application from Mr Dudley Peter Evans of 81 Maes yr Haf, Pwll, Llanelli for the grant of a hackney carriage/private hire dual drivers licence.**

| DETAILED REPORT ATTACHED ? | NO |
|---|---|

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Robin Staines** **Head of Housing and Public Protection**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Robin Staines** **Head of Housing and Public Protection**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD30903 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |
| | | |
| | | |

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**
**01/12/16**

**PWNC A PHWRPAS**
**Mr Matthew Hodgon**
**Cais i adnewyddu trwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Caniatáu cais Mr Hodgon gyda rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## RHESYMAU:

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd T.J. Jones**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Robin Staines | Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd | 01267 228706 rstaines@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Licensing Committee
## 01/12/16

**SUBJECT**

**Mr Matthew Hodgon**

**Application to renew a Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence**

**To consider an application from Mr Matthew Hodgon of 15 Ashburnham Road, Llanelli to renew his hackney carriage/private hire dual drivers licence.**

| DETAILED REPORT ATTACHED ? | NO |
| --- | --- |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Robin Staines** **Head of Housing and Public Protection**



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Robin Staines** **Head of Housing and Public Protection**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD30829 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |
| | | |
| | | |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 11 Hydref 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones (Cadair)

**Y Cynghorwyr:**
P.M. Edwards and J. Thomas

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:** Y Cynghorydd M.K. Thomas a'r Cynghorydd D.E. Williams a'r Cynghorydd T.J. Jones – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
Mr R. Edgecombe – Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones - Pen-swyddog Trwyddedu
A. Rees - Swyddog Trwyddedu
C. Thomas – Cynorthwyydd Trwyddedu
K. Thomas - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 11.03 am**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd dim buddiannau yn y cyfarfod.

## 2. CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE , THE SQUARE, 3 CROSS INN BUILDINGS, STRYD Y GWYNT, RHYDAMAN, SA18 3DN

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi cael ei gyflwyno gan Mr M Coelho am amrywio'r drwydded safle ar gyfer The Square, 3 Adeiladau'r Cross Inn, Stryd y Gwynt, Rhydaman i ganiatáu:

| | | |
|---|---|---|
| Cyflenwi Alcohol: | Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, Dydd Sul Gwyliau Banc, Noswyl Nadolig a Gŵyl San Steffan | 10:00 – 03:00 |
| Cerddoriaeth a recordiwyd | Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, Dydd Sul Gwyliau Banc, Noswyl Nadolig a Gŵyl San Steffan | 10:00 – 03:00 |
| | Nos Galan | 10:00 – 05:00 |
| Oriau Agor: | Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, Dydd Sul Gwyliau Banc, Noswyl Nadolig a Gŵyl San Steffan | 10:00 – 03:30 |

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:

- Atodiad A – copi o'r cais
- Atodiad B - copi o'r drwydded safle bresennol
- Atodiad C - sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu
- Atodiad D - sylwadau Heddlu Dyfed-Powys
- Atodiad E - sylwadau Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd
- Atodiad D – sylwadau a ddaethai i law gan bobl eraill oedd yn gwrthwynebu'r cais

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau, fel y nodwyd yn Atodiad C i'r adroddiad, a dywedodd, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, fod gohebiaeth wedi dod i law gan Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd yn tynnu eu gwrthwynebiadau yn ôl, a hynny ar ôl dod i gytundeb â'r ymgeisydd ynghylch gosod amodau diwygiedig, yr oedd copïau o'r rhain wedi'u dosbarthu yn y cyfarfod. Hefyd, dosbarthwyd e-bost dyddiedig 19eg Medi 2016 gan yr ymgeisydd a oedd yn egluro nifer o faterion mewn perthynas â chapasiti The Square, y drws cefn a gosod system teledu cylch cyfyng.

Gan ystyried y cytundeb a wnaed rhwng yr ymgeisydd, yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ynghylch yr amodau diwygiedig, roedd yr Awdurdod Trwyddedu o'r farn y byddai'n briodol ychwanegu'r amodau hynny at y drwydded newydd, petai'r Is-bwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais am amrywio'r drwydded.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon a oedd yn bresennol holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch ei sylwadau.

Cafwyd sylw gan wrthwynebwr ar ran pobl leol sy'n byw yng nghyffiniau The Square ynghylch y sŵn sy'n dod o'r safle ar hyn o bryd a'r effaith bosibl y gallai caniatáu'r cais am amrywio'r drwydded er mwyn agor am awr arall ei chael ar eu hamwynder. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch a oedd y safle yn dod yn glwb nos, yn enwedig o ystyried y ffaith fod cais (cynllunio) blaenorol am glwb nos yn yr ardal wedi cael ei wrthod. I gloi, rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor fod y rhan fwyaf o'r safleoedd eraill yn yr ardal yn cau am 1.00am.

Rhoddwyd cyfle i bawb oedd yn bresennol holi'r gwrthwynebwr ynghylch ei sylwadau.

Cafwyd sylw gan yr ymgeisydd o blaid ei gais. Cyfeiriodd at bryderon a fynegwyd ynghylch y drws cefn a chadarnhaodd fod y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid yn gadael y safle drwy'r drws ffrynt. Mewn perthynas â'r pryderon ynghylch sŵn, cadarnhaodd nad oedd wedi cael unrhyw gwynion gan naill ai'r Cyngor neu'r Heddlu, a bod unrhyw niwsans sŵn yn cael ei greu o bosibl gan aelodau'r cyhoedd wrth iddynt gerdded drwy'r parc cyfagos sy'n ffinio ag eiddo'r trigolion yn oriau mân y bore. Cyfeiriodd at y cais am amrywio'r drwydded tan 3.00am, a dywedodd, petai'r cais am amrywio'n cael ei ganiatáu, ei fod o'r farn y byddai'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid yn gadael y safle yn raddol cyn yr amser hwnnw gan atal y sefyllfa bresennol lle roedd pawb yn gadael am 2.00am. Cyfeiriodd ymhellach at y Cynllun Gweithredu ar gyfer y safle, a gyflwynwyd yn 2014 yn sgil cais gan yr Heddlu, gan ddweud bod y safle'n cael ei weithredu'n well ers iddo gael ei gyflwyno.

Rhoddwyd cyfle i bawb oedd yn bresennol ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd am ei sylwadau.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Yna bu i'r Is-bwyllgor

**BENDERFYNU'N UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD bod y cais am amrywio'r drwydded safle ar gyfer The Square, Rhydaman yn cael ei ganiatáu, yn amodol ar yr amodau trwyddedu ychwanegol yr oedd yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol wedi cytuno arnynt.**
Y RHESYMAU

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Bu hanes o droseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol ar y safle, a arweiniodd at Gynllun Gweithredu yn 2014.
2. Ers rhoi'r cynllun gweithredu ar waith, ni fu rhagor o broblemau ar y safle.
3. Nid oedd yr Heddlu na Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd yn gwrthwynebu caniatáu'r cais mewn egwyddor.
4. Roedd yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd yn gofyn am osod mesurau rheoli ychwanegol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
5. Roedd yr ymgeisydd, yr heddlu ac Iechyd y Cyhoedd wedi cytuno i ychwanegu amodau ychwanegol at y drwydded i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ac nid oedd ganddynt ddim rheswm dros fynd yn groes i'w sylwadau.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon ac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid y cais, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Roedd yr Is-bwyllgor yn derbyn tystiolaeth y gwrthwynebwyr ynghylch troseddau ac anhrefn a niwsans sŵn yng nghyffiniau'r safle. Fodd bynnag, roedd hefyd yn derbyn tystiolaeth yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd y gellid hyrwyddo'r amcanion trwyddedu drwy weithredu'r amodau trwyddedu ychwanegol y cytunwyd arnynt â'r ymgeisydd.

Gan hynny, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau a gytunwyd yn tanseilio'r amcanion trwyddedu a'i bod, ar ben hynny, yn briodol caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau a gytunwyd er mwyn hyrwyddo'r amcanion hynny.

Atgoffodd yr Is-bwyllgor yr ymgeisydd fod yn rhaid iddo gydymffurfio â'r holl amodau ychwanegol pryd bynnag y byddai'n gwneud defnydd o'r oriau agor ychwanegol a ganiatawyd.

CADEIRYDD

DYDDIAD



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Dydd Mercher, 19 Hydref 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd I.J. Jackson (Chair)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, A. Davies, T. Davies, P.M. Edwards, J.K. Howell, P.E.M. Jones, D.J.R. Llewellyn, J. Thomas, M.K. Thomas, D.E. Williams and J.S. Williams

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:** Y Cynghorydd D.B. Davies a'r Cynghorydd T.J. Jones (Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S.E. Watts – Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd
R. Edgecombe – Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Power – Uwch-swyddog Trwyddedu
P. Booth – Pen-swyddog Trwyddedu
K. Thomas – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 am - 12.50 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

- Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T.Bowen a H.I. Jones.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at salwch diweddar y Cynghorydd H.I. Jones gan ddymuno y byddai'n gwella'n fuan.
- Croesawyd y Cynghorydd D.B. Davies gan y Cadeirydd i'w gyfarfod cyntaf ers cael ei benodi gan y Cyngor i'r Pwyllgor Trwyddedu yn ei gyfarfod ar 12fed Hydref. Nodwyd bod y Cynghorydd Davies yn mynychu'r cyfarfod fel sylwedydd hyd nes y câi'r hyfforddiant priodol, fel oedd yn ofynnol o dan Reolau Gweithdrefn Corfforaethol y Cyngor.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| J.S. Williams | 6 - Cais am adnewyddu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Yn adnabod yr ymgeisydd |

## 3. MR ERNEST TUDOR DAVIES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Ernest Tudor Davies o 62 Gors Fach, Pwll-trap, Sanclêr, Caerfyrddin am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch ei gais a hefyd rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am gynnwys llythyr cefnogaeth gan bartner Mr Davies.

Argymhellodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd fod cais Mr Davies yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod cais Mr Ernest Tudor Davies am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat yn cael ei ganiatáu, ond peidio â rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 4. MR WAYNE SMITH RUSSELL - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Yn unol â Chofnod 4 o'i gyfarfod ar 8fed Medi, 2016, bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Wayne Smith Russell o 29 Pentre Doc y Gogledd, Llanelli, am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod gohebiaeth wedi dod i law gan Mr Russell y diwrnod cynt yn hysbysu nad oedd yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu y diwrnod hwnnw, o achos amgylchiadau teuluol. Roedd Mr Russell hefyd wedi ymddiheuro i'r Cyngor yn yr ohebiaeth honno am beidio â rhoi gwybod iddo am ei gollfarnau moduro, fel oedd yn ofynnol o dan amodau ei drwydded.

Argymhellodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd fod cais Mr Russell yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Yna bu i'r Pwyllgor

**BENDERFYNU**

**4.1 ystyried cais Mr Russell am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat yn ei absenoldeb**

**4.2 caniatáu, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, y cais gan Mr Wayne Smith Russell am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 5. MR DAVID WILLIAM DAVIES - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr awdurdod wedi rhoi Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat i Mr David William Davies o 4 Lôn Morfa, Caerfyrddin, a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded. Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch y mater hwnnw.

Argymhellodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd fod rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol yn cael ei roi i Mr Davies.

Yna bu i'r Pwyllgor:


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**BENDERFYNU cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â darpariaethau Adran 61(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, ganiatáu cais Mr David William Davies am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a bod rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol yn cael ei roi iddo.**

## 6. MR NEIL ASHLEY PALMER - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

(Noder: Gadawodd y Cynghorydd J.S. Williams, a oedd wedi datgan buddiant yn gynharach yn yr eitem hon, Siambr y Cyngor tra oedd y Pwyllgor yn penderfynu ar y cais)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Neil Ashley Palmer o 46 Ffordd Aneurin, Pontyberem, Llanelli, am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat. Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Palmer ynghylch ei gais.

Dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, er ei fod o'r farn y dylid caniatáu cais Mr Palmer, roedd hefyd o'r farn y dylid atal y caniatâd am gyfnod o 7 diwrnod.

Yna bu i'r Pwyllgor

**BENDERFYNU cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod cais Mr Neil Ashley Palmer am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat yn cael ei ganiatáu, ond hefyd fod ei drwydded yn cael ei hatal am bedair awr ar hugain.**

<u>Y Rhesymau</u>
Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor o'r farn fod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn fod angen atal y drwydded am gyfnod byr yn yr achos hwn, a bod hynny'n rhesymol, er mwyn atgoffa'r ymgeisydd o'i rwymedigaethau. Roedd y Cyngor o'r farn y byddai'r cyfnod atal o 7 diwrnod a argymhellwyd yn anghymesur.

## 7. MR DAVID KEITH MAYNARD - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr awdurdod wedi rhoi Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat i Mr David Keith Maynard o 2 Pontgoch, Bancyfelin, Caerfyrddin, a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded. Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Maynard ynghylch y mater hwnnw. Hefyd rhoddwyd

gwybod i'r Pwyllgor am gynnwys y ddau lythyr gan yr achwynydd yn y mater, ynghyd ag ymateb ysgrifenedig Mr Maynard.

Argymhellodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd fod Trwydded Mr Maynard yn cael ei hatal am gyfnod o saith diwrnod.

Yna bu i'r Pwyllgor:

**BENDERFYNU cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD gohirio rhoi ystyriaeth i'r gŵyn yn erbyn Mr Maynard tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor er mwyn i swyddogion gynnal ymchwiliadau pellach ac er mwyn rhoi cyfle i'r achwynydd annerch y Pwyllgor ynghylch y gŵyn**.

## 8. MR REGINALD JOHN DAVIES - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr awdurdod wedi rhoi Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat i Mr Reginald John Davies o Llwyncelyn Cottage, Waun Dyrfal, Llangadog a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded. Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies yngylch y mater hwnnw. Hefyd cyflwynwyd tystiolaeth fideo i'r Pwyllgor ynghylch y gŵyn yn erbyn Mr Davies, ynghyd â geirda a oedd yn tystio i'w gymeriad gan y Cynghorydd Sir A. James.

Argymhellodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd fod Trwydded Mr Davies yn cael ei dirymu.

Yna bu i'r Pwyllgor:

**BENDERFYNU cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â darpariaethau Adran 61(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 fod rhybudd terfynol yn cael ei roi i Mr Reginald John Davies ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Y Rhesymau:
Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn derbyn bod gwahanol ystyron i'r gair “reidad” a bod Mr Davies wedi ei olygu fel bygythiad i godi tâl gormodol ar yr achwynydd pe bai byth yn defnyddio tacsi Mr Davies. Fodd bynnag, roedd yn ddealladwy fod yr achwynydd wedi dehongli'r gair fel bygythiad o drais. O ystyried yr hyn roedd Mr Davies yn ei olygu gan y geiriau a ddefnyddiwyd a'i ymddygiad rhagorol fel gyrrwr trwyddedig dros 39 o flynyddoedd, roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd achos rhesymol dros atal neu ddirymu ei drwydded. Fodd bynnag, byddai rhybudd terfynol yn briodol o dan yr amgylchiadau gan fod ymddygiad o'r fath tuag at was cyhoeddus yn annerbyniol


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**9. PENODI AELOD I EISTEDD AR IS BWYLLGOR TRWYDDEDU B**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 12fed Hydref 2016 i benodi'r Cynghorydd D.B. Davies fel aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu, y byddai angen bellach i'r Pwyllgor benodi aelod i lenwi'r lle gwag ar Is-bwyllgor Trwyddedu B.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd D.B. Davies i wasanaethu ar Is-bwyllgor Trwyddedu B.**

**10. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "C" A GYNHALIWYD AR YR 31AIN AWST, 2016.**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'C' ar 31ain Awst, 2016, yn gywir, yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd K. Howell wedi cyflwyno ymddiheuriad.**

**11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR, COFNODION CYFARFORD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 8FED MEDI, 2016.**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu ar 8fed Medi, 2016, yn gywir.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol